# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, ar ddydd Mercher, 25 Ebrill 2001, am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, E.R. Jones (dirprwy ar ran N. Hugh-Jones), G. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, P.O. Williams a R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Prif Swyddog Cynllunio (Ardal y De), Prif Swyddog Cynullunio (Ardal y Gogledd), Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, R.W. Hughes, J.R. Hughes, N. Hugh-Jones, K.P. Stevens a K. Wells.

## 1412. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo'r cynlluniau a gyflwynwyd, ac yr oedd ofynnol i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd, a dosbarthu caniatâd cynllunio neu wrthod y cais fel bo'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ar gyfer datblygiadau arfaethedig yn unol â'r cynlluniau a ganlyn, yn amodol ar yr amodau wedi eu rhifo yn y rhestr a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2001/0048/PF | (Yn dilyn ystyried un llythyr ychwanegol gan Beirianwyr Draenio).<br>Adeiladu estyniad deulawr i'r neuadd chwaraeon presennol i ffurfio labordy ffysiotherapyddion a champfa yn Ysgol Howells, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amod newydd rhif 3:-<br>3. Ni chaniateir dechrau ar y datblygiad nes y cyflwynir manylion llawn am y dull gwaredu dwr to o'r estyniad a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM - er mwyn sicrhau trefniadau draenio boddhaol er budd amwynder. |
| 15/2000/1025/PS | Amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio 25/13934 yn ymwneud ag oriau gweithredu garej cerbydau amaethyddol a masnachol, i ganiatáu gweithio 24 awr yn yr adeilad yn unig, gan ddefnyddio offer a pheiriannau a nodir yn benodol (oriau a ganiateir yn awr, 0800 - 1800 Dydd Llun - Dydd Gwener, 0800 - 1300 Dydd Sadwrn, dim gweithio ar ddydd Sul na gwyliau cyhoeddus) yn Garej Burley Hill, Ffordd Pant Du, Eryrys, Yr Wyddgrug.<br>YN AMODOL ar ddiwygio geiriad amod rhif 1 - mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| 22/2001/0277/PF | (Yn dilyn ystyried diwygiad i'r adroddiad - T37 P3(i) - mae'r estyniad ar yr ochr arall i'r un a wrthodwyd yn flaenorol - dim effaith andwyol ar eiddo cyfagos).<br>Adeiladu ystafell haul ar du ôl yr annedd yn Bro Clwyd, Gellifor, Rhuthun. |
| 23/2000/1016/PF | (Datganwyd buddiant yn y cais a ganlyn gan y Cynghorwyr S. Thomas a R.E. Jones a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â'r cais).<br>(Yn dilyn ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth y Cyngor Cymuned - yn gwrthwynebu a dau lythyr arall a dderbyniwyd ynghylch 23/2001/263/PO).<br>Defnyddio tir fel safle carafanau symudol, yn cynnwys adeiladu adeilad cyfleusterau ac addasu'r mynediad presennol i gerbydau yn Oak Vale Garden Centre, Llanrhaeadr Y.C., Dinbych.<br>YN AMODOL ar gynnwys yr annedd presennol a adwaenir fel Oakvale yn safle'r cais, ac<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 14 ac amod newydd rhif 15.<br>14. Ni chaiff y gwrych presennol a'r rhan newydd arfaethedig sy'n ofynnol ar gyfer cau'r mynediad ar hyd ymyl y safle sy'n ffinio ar y ffordd ei dorri nes ei fod wedi cyrraedd uchder o 3m uwchben lefel y ffordd ac ni chaiff ei ostwng yn is na 3m o uchder wedi hynny.<br>15. Pan ddechreuir defnyddio'r safle fel maes carafanau symudol, bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n byw yn yr annedd Oakvale fod yn berson (neu bersonau) sy'n ymwneud â chynnal a goruchwylio'r maes carafanau teithiol, yn cynnwys teulu a dibynyddion y person hwnnw/personau hynny.<br>RHESWM - er mwyn sicrhau y cedwir yr annedd presennol a bod y rhai sy'n byw ynddo yn gysylltiedig â gweithredu'r safle carafanau teithiol. |
| 40/2001/0097/PC | Parhau i ddefnyddio eiddo fel swyddfa llogi tacsis (cais adolwg) yn Victoria Works, Ffordd Abergele, Bodelwyddan, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig a ganlyn, rhifau 2 a 3:-<br>2. O ddyddiad y penderfyniad hwn, hysbysiad na chaniateir i unrhyw gerbydau sy'n gysylltiedig a'r defnydd a ganiateir trwy hyn fynd trwy'r giatiau diogelwch presennol, ac eithrio er mwyn darparu mynediad a ffordd allan i gerbydau a ddefnyddir gan bobl sy'n gweithredu'r offer radio, etc....<br>3. O ddyddiad y penderfyniad hwn, hysbysiad ynghylch yr ardaloedd arwyneb caled agored presennol etc..... |
| 41/2001/0180/PS | Dileu amod rhif 12 yng nghaniatâd cynllunio rhif 41/2000/0912/PF sy'n ymwneud â defnyddio maes parcio gan y cyhoedd ar gae Rhif Arolwg Ordnans 2320 The Glebe, Bodfari, Dinbych.<br>YN AMODOL ar ddileu amod rhif 1 yn yr adroddiad. |
| 42/2000/1115/PF | (Yn dilyn ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd).<br>Adeiladu 79 annedd gyda'r ffyrdd a'r mannau agored cysylltiedig ar y safle 2 hectar a gadwyd ar gyfer safle ysgol gynradd oddi ar Ystad Plas Newydd, oddi ar Ffordd Pantcelyn, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhifau 3 a 9, amod newydd rhif 10 a nodiadau i'r ymgeisydd, rhifau 1, 2 a 3:-<br>3. Dileu "ar y safle"<br>9. ....... fe'i cyflwynir yn unol â rhaglen i'w chyflwyno i a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y datblygiad.<br>10. Cyn dechrau ar y datblygiad rhaid cyflwyno manylion am y lefelau llawr gorffenedig yn yr aneddau a ganiateir trwy hynny a'u |

cymeradwyo’n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid adeiladu’r aneddau yn unol â’r manylion a gymeradwywyd.
RHESWM - er mwyn ystyried lleoliad y safle o fewn y gorlifdir dangosol.
<u>Nodiadau i’r Ymgeisydd</u>:
1. Dywed Asiantaeth yr Amgylchedd fod safle’r cais o fewn gorlifdir llanw wedi ei amddiffyn.
2. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd rhifau 1, 2, 4, 5 a 10 ynghlwm.
3. Dywed yr Awdurdod Priffyrdd y bydd yn ofynnol llunio Cytundeb Adran 278 yn unol â’r Ddeddf Priffyrdd cyn dechrau ar y datblygiad.

44/2001/0299/PF

(Yn dilyn ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan).
Newid defnydd siop Dosbarth A1 i salon harddwch yn 6 Stryd Fawr, Rhuddlan, Y Rhyl.

45/2000/0498/PF

(Yn dilyn ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth
M. R. Desmond, 18 Pen y Llys, Y Rhyl; Cyngor Tref Y Rhyl a Chyngor Cefn Gwlad Cymru).
Adeiladu 90 annedd deulawr a chreu ffyrdd ystad dai cysylltiedig ar dir oddi ar Rhodfa Maen Gwyn, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhifau 4, 7, 9, 10 ac 11 a nodyn ychwanegol i’r ymgeisydd.
4. Cynllun gosod manwl yn dangos dyluniad, dulliau arafu traffig, arwyddion, draeniad, goleuadau stryd, darpariaeth arosfannau bws ac adeilawaith ffyrdd mewnol yr ystad a ffordd fynedfa mewn argyfwng i’w cyflwyno i a’u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar unrhyw waith ar y safle. Rhaid darparu’r ffordd fynediad mewn argyfwng cyn i bobl fod yn byw mewn mwy na 50 o’r anheddau a ganiateir trwy hyn.
7. Rhaid cadw’r ardal a ddangosir gyda sgwariau rhwng plotiau 49 a 50 a’r Luniad Cynllun Gosod y Safle Rhif DX0500/00131/2D er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau i’r tir i’r dwyrain ac ni chaiff ei gynnwys yn ardal gardd/cwrtil unrhyw annedd.
RHESWM - er budd cynllunio’r ardal yn iawn.
9. Ychwanegu “Caiff y system draenio dwr arwyneb ei dylunio yn unol â thechnegau draenio trefol cynaladwy.”
10. Rhaid cyflwyno manylion am ddyluniad ac adeiladwaith yr orsaf bwmpio, yn cynnwys y mesurau atal swn ac aroglau, i’r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn.
11. Ychwanegu “Rhaid darparu’r ardal chwarae cyn i unrhyw un ddod i fyw yn yr anheddau ar blotiau 27 - 29, 33 - 34, 46 neu 75 - 78.
Nodyn i’r ymgeisydd -
Dylai’r cynllun draenio dwr arwyneb sy’n ofynnol yn ôl amod 9 ymgorffori’r ffosydd a’r draeniad tir sy’n bodoli eisoes ar ffin ogleddol y safle.

45/2001/0207/PF

(Yn dilyn ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl, M. Davies, 151 Stryd y Dyffryn, Y Rhyl a’r Pennaeth Priffyrdd).
Newid defnydd annedd preifat yn feithrinfa a safle gofal plant; adeiladu estyniad unllawr gyda tho pig ac addasiadau i’r ffordd fynedfa bresennol i gerbydau a cherddwyr yn 159 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhifau 2, 6 a 7 a’r nodiadau i’r ymgeisydd newydd, rhifau 1 a 2:-
2. “...cynllun y safle a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 10 Ebrill 2001”

6. Rhaid i'r holl ffensio, walio a thriniaethau eraill a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd gael eu cyflawni cyn dechrau defnyddio'r eiddo i'r diben newydd.
7. Ni chaiff unrhyw ddatblygu ddigwydd nes y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar gyfer arwynebau allanol waliau'r datblygiad a ganiateir trwy hyn, ac ni cheir defnyddio unrhyw ddeunyddiau ac eithrio'r rhai a gymeradwywyd.
Nodiadau i'r Ymgeisydd:
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd rhifau 1, 2, 4, 5 a 10 ynghlwm.
2. Yn y llythyrau a dderbyniwyd cyfeirir at ffrwd naturiol sy'n bresennol o dan yr eiddo sy'n destun y caniatâd cynllunio hwn. Bydd yn ofynnol cynnwys mesurau yn y cynllun i sicrhau nad yw cwrs y ffrwd naturiol yn cael ei effeithio neu y gwneir darpariaeth amgen yn y cynllun.
(Ataliodd y Cynghorydd M.Ll.Davies ei bleidlais ar y cynnig hwn).

45/2001/0250/PF — (Datganodd y Cynghorydd M. German ei fudd anariannol yn y cais a ganlyn).
Newid defnydd o siop trin gwallt i swyddfeydd (Dosbarth B1) ar y llawr gwaelod yn 116 Ffordd Wellington, Y Rhyl.

45/2001/0259/PF — Newid defnydd eiddo i Ddosbarth A1 manwerthu a Dosbarth B1 diwydiannol ysgafn (yn y cefn) a gosod llenni metel [roller shutters] (mewn adolwg yn rhannol) yn The Grange, Grange Road, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-
3. Ychwanegu "a chaiff y 'llenni metel' eu lliwio yn unol â'r gorffeniad lliw a gymeradwyir cyn eu gosod."

45/2001/0268/PF — Adeiladu estyniad llawr cyntaf â tho pig ar ben estyniad unllawr sy'n bodoli eisoes y tu ôl i'r annedd yn 2 Rhodfa Patagonia, Y Rhyl.

45/2001/0267/PF — Newid defnydd rhan o'r llawr gwaelod o Ddosbarth A1 siop i ffurfio estyniad i'r rhan preswyl presennol yn 26 Diane Drive, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 3:-
3. Rhaid i'r newidiadau i'r blaen a nodir ar gynllun rhif 1349/2/MAY/00 gael eu cwblhau cyn dechrau defnyddio'r rhan preswyl estynedig a ganiateir trwy hyn.
RHESWM - er budd amwynder gweledol a phreswyl.

45/2001/0283/PF — Newid defnydd cyn lety i annedd unigol yn 26 John Street, Y Rhyl.

46/2001/0111/PF — Gosod 'llenni metel' ar borth mynedfa yr eglwys yn Eglwys Gatholig Santes Gwenffrewi, Stryd Caer, Llanelwy.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2:-
2. ychwanegu "i'w roi arno cyn gosod y 'llenni metel'".

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (yn amodol ar ei gyfeirio at Cadw ac nad yw'n cael ei alw i mewn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru).

<u>Rhif y cais</u> — <u>Disgrifiad a Lleoliad</u>

01/2001/0158/LB — Dymchwel wal yn rhannol a'i chwtogi, adeiladu wal newydd, gosod maes parcio, goleuadau yn gysylltiedig â hynny, tirlunio a gosod giatiau yn Ysgol Howells, Dinbych.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 4:-
4. Rhaid cytuno ar oriau defnyddio'r goleuadau gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn eu defnyddio am y tro cyntaf.
RHESWM - er budd amwynder gweledol.

| | |
|---|---|
| 01/2001/0120/LB | Dymchwel dau fflat gwag presennol a rhoi estyniad i greu 2 annedd yn 53 Stryd y Dyffryn, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 6:-<br>6. Y dull gwydro fydd pwti olew linseed, gwydr sengl gyda'r gorffeniad yn baent glos lliw OYSTER (Côd BS 10B15), oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Hefyd rhaid cyflwyno manylion am y dull agor y ffenestr, manylion y dull gosod y ffenestr yn cynnwys i ba raddau y bydd y ffrâm yn cael ei ôl-osod yn y lintel, manylion y sil ffenestr a'r dull gwaredu dwr o ran isaf y fframiau i'w cymeradwyo; gyda'r manylion a gymeradwyir yn cael eu cyflwyno cyn i'r aneddau gael eu defnyddio. |

(iii) Gwrthod

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2001/0168/PC | Cadw dysgl lloeren (cais adolwg) yn 76 Ffordd y Morfa, Y Rhyl. |

*(b) cyfeirio'r penderfyniad isod gan y Pwyllgor i ganiatáu caniatâd cynllunio mewn perthynas â chais gan Aelod o'r Cyngor i'r Cyngor Llawn yn unol â Chofnod Rhif 5, 15 Chwefror 1996;-*

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 44/2001/0255/PF | (Datganodd y Cynghorydd S. Thomas fod ganddo fudd yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â'r cais).<br>(Yn dilyn ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan).<br>Newid defnydd tir i ffurfio estyniad i faes carfanau symudol a gosod 6 carafan teithiol ar dir wrth ymyl Clwyd View, Ffordd y Morfa, Rhuddlan, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amodau newydd rhifau 1 a 2.<br>1. Rhaid dechrau ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn cyn pen 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.<br>2. Ni chaniateir carafanau teithiol ar y safle (yn cynnwys eu storio) y tu hwnt i'r cyfnod a ganlyn: 1 Ebrill - 31 Hydref yn ystod unrhyw flwyddyn (amod 1 yn flaenorol). |

*(c) Serch argymhelliad y Swyddogion, y dylid gwrthod y cais a ganlyn am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2000/0884/PF | (Yn dilyn ystyried 4 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llangollen, Cymdeithas Ddinesig Llangollen, Dyfrffyrdd Prydain ac Ymddiriedolaeth Cychod Culion Cymuned Cilgwri).<br>Datblygu tir trwy greu angorfeydd dros nos ar gyfer hyd at 32 o gychod camlas ac adeiladu pont droed a ramp gysylltiedig yn Angorfa Llangollen, Ffordd Dinbren, Llangollen.<br>Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i argymhelliad y swyddogion, am y rheswm a ganlyn:-<br>RHESWM - y byddai manylion dylunio'r bont yn annerbyniol yn y lleoliad hwn. |

*(ch) Serch argymhelliad y Swyddogion, y dylid gwrthod y cais a ganlyn am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 23/2001/0263/PC | (Datganodd y Cynghorwyr S. Thomas a R.E. Jones fod ganddynt fudd yn y cais a ganlyn a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â'r cais). |

| | |
|---|---|
| | Amrywio amod 5 y caniatâd cynllunio a ganiatwyd o dan Gyfeirnod 34/11074, yn cyfyngu ar y rhai y caniateir iddynt fyw yn yr annedd i bobl a gyflogir i redeg y Ganolfan Arddio wrth ymyl, i gyfyngu ar y rhai y caniateir iddynt fyw yno i berson (neu bersonau) sy’n ymwneud â chynnal a goruchwylio’r safle carafanau teithiol sy’n cynnwys teulu ac unrhyw ddibynyddion y person(au) hynny yn Oak Vale Garden Centre, Llanrhaeadr, Dinbych.<br>RHESWM - negodi tynnu’r cais hwn yn ôl yn sgîl y penderfyniad gyda rhif cais 23/2000/1016/PF. |
| 30/2001/0181/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd).<br>Dymchwel y tyddyn presennol ac adeiladu annedd yn ei le a chreu ffordd fynedfa newydd i gerbydau yn Dolwar, Trefnant, Dinbych.<br>RHESWM - er mwyn trafod y posibilrwydd o gael mynediad i’r safle o Lys yr Erwain yn y gogledd ymhellach gyda’r ymgeisydd. |
| 46/2001/0280/LB | Gosod 2 gasglwr gwresogi dwr solar ar do adeilad rhestredig Gradd II yn 2 Rosehill House, Ffordd Glascoed, Llanelwy.<br>RHESWM - er mwyn caniatáu gwerthuso effaith y gwaith ar yr adeilad rhestredig. |
| 47/2001/0310/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Tremeirchion/Cwm/Waen Community Council).<br>Gosod twr mono-bolyn 20m o uchder, antennae, caban offer a chompownd yn Fferm Fachwen, Waen, Llanelwy.<br>RHESWM - er mwyn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio polyn sy’n edrych fel coeden neu adleoli i safle peilon trydan gerllaw. |

(d) *Serch argymhelliad y swyddogion, y dylid gohirio’r ceisiadu a ganlyn er mwyn cynnal ymweliadau â’r safleoedd.*

| <u>Rhif y cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 15/2001/0186/PO | (Yn dilyn ystyried 12 llythyr ychwanegol oddi wrth A.J. & B. Rigby, Bronallt, Llanarmon yn Iâl, Cyngor Cymuned Llanarmon, Cymdeithas Cadwraeth Llanarmon a’r Fro a 9 unigolyn).<br>Datblygu 0.1 hectar o dir trwy adeiladu annedd a ffurfio ffordd fynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol) ar dir wrth ymyl Cam-Yr-Alyn, Ffordd Llandegla, Llanarmon-yn-Iâl. |
| 23/2001/0031/PF | (Datganodd y Cynghorydd S. Thomas fod ganddo fudd yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ym ymwneud â’r cais).<br>(Yn dilyn ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth Bensaer Tirlunio’r Sir).<br>Gosod 6 carafan teithiol ychwanegol a’r pebyll cysylltiedig i wneud cyfanswm o 18 carafan teithiol (caniatawyd 12 carafan teithiol a maes pebyll yn flaenorol ar apêl dan gôd 34/4243), cynigion tirlunio ac addasiadau i’r ffordd fynedfa bresennol i gerbydau a cherddwyr ym Maes Carafanau Caer Mynydd, Saron, Dinbych. |
| 23/2001/0032/PF | (Datganodd y Cynghorydd S. Thomas fod ganddo fudd yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â’r cais).<br>Adeiladu adeilad cyfleusterau (toiledau a golchfa) a gosod tanc carthffosiaeth newydd a gwaith cysylltiedig ym Maes Carafanau Caer Mynydd, Saron, Dinbych. |

**1413. DYDDIAD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynnal ymweliadau safle yn deillio o Eitem Agenda Rhif 1 ar Ddydd Llun, 30 Ebrill 2001, a nodwyd aelodaeth gyfredol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar Ddydd Llun, 30 Ebrill 2001.*

**1414. MATER GORFODAETH**

ENF/101/01/N

Dysgl lloeren diawdurdodedig yn 76 Ffordd y Morfa, Y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r isod:-*

*(a) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau tynnu'r ddysgl lloeren ddiawdurdodedig i lawr, a*

*(b) Dechrau ar gamau erlyn, neu gamau gweithredu eraill priodol, o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y cyflwynir y Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall o'r fath, neu yn erbyn y diffynyddion o ran achos cyfreithiol petaent yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd.*

**1415. CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU - POLISI CYNLLUNIO CYMRU, DRAFFT**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio ymateb a sylwadau'r Cyngor i fersiwn drafft Polisi Cynllunio Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn nodi'r prif newidiadau a'r prif faterion a'r sylwadau yr awgrymir y dylid eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) y dylai'r prif bwyntiau a nodwyd yn yr Adroddiad ynghyd â'r materion manwl a nodir yn yr Atodiad ffurfio sylfaen ymateb y Cyngor, ac y dylid cynnwys rhagor o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig, ac*

*(b) y dylai ymatebion a sylwadau a dderbynnir gan adrannau a gwasanaethau eraill gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.*

Diolchwyd i'r Swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr.

**1416. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhestru'r ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo o dan awdurdod dirprwyedig rhwng 10 Mawrth 2001 a 6 Ebrill 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.

************